



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Gorffennaf 2025 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 July 2025 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/Councillors:** Elaine Evans (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles (**gadael am 7.05yh i gynorthwyo yn y Gwyl Fawr** / left at 7.05pm to marshal the Gwyl Fawr), Richard Davies, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Nick Bolton, John Adams-Lewis, Teresa Harries, Philippa Noble, Clive Davies (**cyrhaeddodd am 6.45yh oherwydd gwrthdaro cyfarfodydd** / arrived at 6.45pm due to a clash of meetings), Mark Cole, Mike Lewis (Tivyside), Llinos Haf-Jones (**Cyfieithydd** / Translator) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Dirprwy Faer, y Cyng Elaine Evans, ei chyd-gynghorwyr i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Aeth y Cyng Evans ymlaen i longyfarch Mr Glen Johnson, ein harbenigwr hanes leol, sydd wedi cael ei gydnabod yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin 2025 ac wedi derbyn Medal Ymerodraeth Prydain am ei wasanaethau i Dreftadaeth. Hefyd, da iawn i'r grŵp o drigolion o Bentop sydd wedi llwyddo i ennill Gwobr Arfer Da TPAS (Gwasanaeth Cyngori Cyfranogiad Tenantiaid) 2024-2025.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Deputy Mayor, Cllr Elaine Evans, welcomed her fellow councillors to the meeting and thanked them for their presence. Cllr Evans went on to congratulate Mr Glen Johnson, our very own history specialist, who has been recognised in the 2025 King's Birthday Honours and awarded the British Empire Medal for services to Heritage. Also, well done to the group of residents from Pentop who have been successful in winning the TPAS (Tenant Participation Advisory Service) Good Practice Award 2024-2025.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Y Cyng Olwen Davies – agoriad swyddogol y Gwyl Fawr; Richard Jones – Cyfarfod Pwyllgor Godro Defaid.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Olwen Davies – Gwyl Fawr official opening; Richard Jones - Sheep Milkers Committee Meeting.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

<i>Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein: Pob mater yn ymwneud â chynllunio / All matters relating to planning.</i>	<i>Mae'r cynghorwyr yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio / The councillors sits on the planning committee.</i>
<i>Eitem 8. c) Gohebiaeth Rhif 146 /Item 8. c) Correspondence no 146: Y Cyng / Cllr Richard Davies:</i>	<i>Gallai mabwysiadu'r llochesi bysiau newydd arwain at lwyth gwaith ychwanegol i'r cynghorydd trwy ei rôl fel y Bachandech / The adoption of the new bus shelters could result in additional workload for the councillor through his Handyman role.</i>

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 3 a 10 Mehefin 2025. Cynigiodd y Cyngorwyr fod cofnodion cyfarfodydd y cyngor ar nos Fawrth 3 a 10 Mehefin yn cael eu cofnodi fel rhai cywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 3 and the 10 June 2025. The Councillors proposed that the Tuesday, 3 and 10 June council meeting minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2025.

- Mae'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gyfer ein harchwiliad llawn wedi'i chyflwyno i Archwilio Cymru. Mae'r hysbysiad Hawliau Etholwyr wedi'i arddangos ar wefan y Cyngor Tref, drws y swyddfa a'r hysbysfwrdd ers 16 Mehefin 2025.
- Cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol Comisiwn Elusen Parc Chwarae'r Brenin Siôr V ar gyfer 2024 ar 24 Mehefin 2025.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 1 April 2025.

- The Annual Return and requested information for our full audit has been submitted to Audit Wales. The Electors' Rights notice has been displayed on the Town Council website, office door and notice board since the 16 June 2025.
- The King George V Playing Fields Charity Commission Annual Return for 2024 was submitted on 24 June 2025.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Eitem 8 c) Rhifau gohebiaeth 170 a 187; Eitem 8 i) Ceisiadau am gymorth ariannol.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

Item 8 c) Correspondence numbers 170 and 187; Item 8. i) Applications for financial aid.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A250438	Steve Cole, WH Smith, 17-18 High Street, Aberteifi, SA43 1JJ.	Arddangos arwyddion / Display of signage.	<i>Dim gwrthwynebiadau, ond mae'r cynghorwyr yn dymuno i'r iaith Gymraeg gael ei rhoi yn gyntaf ar yr arwyddion / No objections, but councillors wish for the Welsh language to be placed first on the signs.</i>

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/07/25	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Gorffennaf/July) Band Lydan (Gorffennaf) / Broadband (July)	A9 A20	D/D	£291.67.00(0.00) £20.00 (0.00)
02/07/25	Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mehefin/June)	A5	BACS	£1957.52(0.00)
02/07/25	HMRC – Taliad TWE ar gyfer 6 Mehefin 2025 – 5 Gorffennaf 2025/ PAYE payment for 6 June 2025 – 5 July 2025.	A16	BACS	£639.53(0.00)
02/07/25	Bachan Deche / Handyperson (Mehefin/June)	A19	BACS	£1450.00(0.00)
11/06/25	Gwasanaeth cyfieithu/Translating service	A18	BACS	£122.50(0.00)
05/06/25	Sharp – Monthly minimum copies fee	A7	BACS	£30.00(5.00)
06/06/25	Dwr Cymru- Admin processing charges new connection	B10	BACS	£178.49(29.75)
16/06/25	Swyddfa'r Post / Post Office – Audit Wales documents.	A13	BACS	£6.65(0.00)
23/06/25	Cynhadledd Un Llais Cymru / One Voice Wales Conference	A24	BACS	£67.00(0.00)
02/07/25	BT – Bil Ffôn / Phone Bill	A20	D/D	£187.49(31.25)
26/06/25	ROSPA Play Safety – King George V	C3	BACS	£108.00(18.00)
26/06/25	ROSPA Play Safety – Cardigan Skatepark	C5	BACS	£108.00(18.00)
26/06/25	Blakedown Sport and Play	B8	BACS	£6493.31(1082.22)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/06/2025 Lloyds Bank: Llog / Interest £58.83

b) Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd Mehefin 2025 / Financial Report to the end of June 2025.

Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr.

Hysbysodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cynghorwyr am gamgymeriad wrth gyfrifo cyflog y Clerc a'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Threthi. Byddai trosglwyddo £4000 o A5 i A16 yn osgoi tanwariant a gorwariant, ni fyddai unrhyw effaith ar y gyllideb gyffredinol.

Penderfynodd y cynghorwyr dderbyn yr addasiad yn y gyllideb a chytuno â'r adroddiad ariannol.

The report has been forwarded beforehand to all councillors.

The RFO notified the councillors of an error in the calculation of the Clerks' salary and National Insurance and Tax Contributions. A transfer of £4000 from A5 to A16 would avoid an under and over spend, there would be no impact on the overall budget. The councillors resolved to accept the adjustment in the budget and agreed with the financial report.

c) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
134	Gwerfyl Pierce Jones – <i>Cadeirydd / Chairperson, HAHAV: Diolch am eich cyfraniad hael a'ch cefnogaeth / Thank you for your generous contribution and support.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 05/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/06/2025.
135	Debbie Atkins – <i>Ymwelydd / Visitor: Sylwadau ar yr arddangosfa flodau yng nghanol y dref / Comments on the flower display in the town centre.</i>	<i>Y Clerc i hysbysu Ms Atkins bod yr arddangosfeydd blodau bellach wedi'u gosod yng nghanol y dref / The Clerk to notify Ms Atkins that the flower displays have now been installed in the town centre.</i>
136	Dana Jones – <i>Gwasanaethau Democrataidd, CSC / Democratic Services, CCC: Holiadur Hyfforddiant Côt Ymddygiad / Code of Conduct Training Questionnaire.</i>	<i>Dylai Cynghorwyr nad ydynt wedi cwblhau'r Hyfforddiant Cod Ymddygiad hysbysu'r Clerc am ddyddiadau addas ar gyfer wneud y cwrs / Councillors who have not completed the Code of Conduct Training are to inform the Clerk of suitable dates for booking the course.</i>
137	<i>Bwletin BroCardi360 Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 06/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/06/2025.
138	<i>Un Llais Cymru E-Bwletin Rhifyn 4 / One Voice Wales E-Bulletin Issue 4.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 06/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/06/2025.
139	Wynne Jones – <i>Presylwydd / Resident: Ffioedd Parcio Tref Aberteifi / Cardigan Town Parking Charges.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 06/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/06/2025.
140	<i>Prosiect Argyfwng Cost Byw Un Llais Cymru – Gwybodaeth ac Adnoddau / One Voice Wales Cost of Living Crisis Project – Information and Resources.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 06/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/06/2025.
141	Leighton Jones – <i>Yr Is-adran Polisi Llywodreath Leol, Llywodraeth Cymru / Local Government Policy Division, Welsh Government: Adolygu trefniadau cymunedol Sir Ceredigion / Review of community arrangements of the County of Ceredigion.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 06/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/06/2025.
142	Sandra Bishop – <i>preswlydd / resident: Sylwadau ar y cynnydd mewn taliadau parcio / Observations on the rise in parking charges.</i>	<i>Penderfynwyd gofyn am rannu'r llythyr gyda Grŵp Masnachwyr Aberteifi / It was resolved to request the letter to be shared with the Cardigan Traders Group.</i>
143	Wynne Jones – <i>Presylwydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill,</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 09/06/2025.</i>

	<i>Aberteifi SA43 1NE</i> / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.	For your information. Forwarded to all councillors on 09/06/2025.
144	Callum Jones – <i>Swyddog Cymunedol Cefnogol</i> / Supportive Communities Officer, CAVO: <i>Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau Gweithdy Maniffesto</i> / Building Communities Trust Manifesto Workshop.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 09/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/06/2025.
145	<i>Preswlydd dienw</i> / Unnamed resident – <i>Parcio am ddim yn yr ysgolion lleol dros wyliau'r haf</i> / Free parking in the local schools over the summer break.	<i>Penderfynwyd na fyddai hyn yn hyfyw oherwydd problemau ymarferoldeb</i> / It was resolved that this would not be viable due to practicality issues.
146	Alfie Waitting – <i>Peiriannydd Prosiect, Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC</i> / Project Engineer, Highways, Engineering and YGC Department: <i>Gwelliannau Seilwaith Safleoedd Bysiau Aberteifi</i> / Cardigan Bus Stop Infrastructure Improvements.	<i>Penderfynwyd derbyn y gwelliannau seilwaith</i> / It was resolved to accept the infrastructure improvements.
147	Jordanne Jones – <i>Swyddog Cyswllt Cymunedol ar gyfer Jane Dodds AS, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru</i> / Community Liaison Officer for Jane Dodds MS, Welsh Liberal Democrats: <i>Cais i ailsefydlu'r gwasaneth gofal brys ar benwythnosau</i> / Attempt to reinstate the emergency care service on weekends.	<i>Cymeradwywyd yr ymateb drafft gan Jane Dodds MS a'i anfon ymlaen at Jeremy Miles MS</i> / The drafted response from Jane Dodds MS was approved and forwarded to Jeremy Miles MS.
148	<i>Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol Lleol CSC</i> / Highways and Environmental Services, CCC: <i>Cyfngiadau Gwastraaff Gweddilliol</i> / Residual Waste Restrictions.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 10/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/06/2025.
149	<i>Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise Community Forest Garden: Cylchlythyr Mehefin</i> / June Newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/06/2025.
150	Wynne Jones – <i>Presylwydd</i> / Resident: <i>Prosiect Amddiffyn rhag Llifogydd Aberteifi</i> / Cardigan Flood Defence Project.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/06/2025.
151	Paul Williams – <i>Rheolwr Cyfleusterau Adeiladau, CSC</i> / Buildings Facilities Manager, CCC: <i>Les Arfaethedig Toiledau Cyhoeddus Aberteifi – Sail Cytundeb</i> / Lease of Cardigan Public Toilets – Heads of Terms.	<i>Penderfynwyd derbyn Sail Cytundeb Telerau'r Brydles</i> / It was resolved to accept the Lease Heads of Terms.
152	William Prichard – <i>Cadeirydd CCF</i> Chairman: <i>Chwilio am aelodau ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr</i> / Seeking members on the Board of Directors.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 12/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 12/06/2025.
153	Eifion Evans – <i>Prif Weithredwr, CSC</i> / Chief Executive, CCC: <i>Ymateb diffyg ymgysylltu ynghylch ailagor Pwll Nofio Aberteifi</i> / Response to the lack of response regarding the reopening of Cardigan Swimming Pool.	<i>Penderfynwyd derbyn yr esboniadau a'r eglurder a dderbyniwyd gan y Prif Weithredwr</i> / It was resolved to accept the explanations and clarity received from the Chief Executive.
154	<i>Prosiect Argyfwng Cost Byw Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales Cost of Living Crisis Project – <i>Digwyddiadau ar-lein sydd i ddod</i> / Upcoming online events.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 13/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/06/2025.
155	Rebecca Jones – <i>Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned, Dŵr Cymru</i> / Community Engagement Manager, Welsh Water: <i>Gwaith gosod twmpath cyflymder ym Mharc Netpool</i> / Netpool Park speed hump installation work.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 13/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/06/2025.
156	Mike Jones-Garner – <i>Trysorydd, Clwb Ceir Clasurol Aberteifi</i> / Treasurer, Cardigan Classic Car Club: <i>Diolch am eich cyfraniad hael a'ch cefnogaeth</i> / Thank you for your generous contribution and support.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 16/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 16/06/2025.
157	Y Cyng/Cllr Olwen Davies – <i>Holiadur o Ymgynghoriad Prydau Cymunedol Cegin Teifi</i> / Questionnaire from the Cegin Teifi Community Meal Consultation.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 16/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 16/06/2025.

158	Neris Davies – <i>Swyddog Argyfyngau Sifl a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol, CSC / Civil Contingencies and Community Safety Partnership Officer: Adnabod adeiladau cymunedol fel canofannau gorffwys mewn argyfwng posibl / Identifying community venues to act as possible emergency rest centres.</i>	<i>Y clerc i holi ble mae'r lleoliadau brys presennol ac i rannu rhestr o safleoedd arall / Clerk to enquire where are the current emergency venues and to share a list of further sites.</i>
159	Joy Edwards - <i>Blodau canol y dref / Town Centre Flowers.</i>	<i>Y Clerc i hysbysu Ms Edwards bod yr arddangosfeydd blodau bellach wedi'u gosod yng nghanol y dref / The Clerk to notify Ms Edwards that the flower displays have now been installed in the town centre.</i>
160	Wynne Jones – <i>Presylwydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/06/2025.
161	<i>Grwp Cyflawni y BGC: Llesiant yn Aberteifi – Cyllid trechu tlodi bwyd ag ansicrwydd bwyd 2025-26 / PSB Delivery Group: Wellbeing in Cardigan – Tackling food poverty and food insecurity funding 2025-26.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/06/2025.
162	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Stryd Santes Fair / St Mary Street. 14/07/25-17/07/25 08:00-17:00.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/06/2025.
163	David Collins – <i>Swyddog Datblygu Arfer Llywodraethau a Pholisi, Un Llais Cymru / Governance and Policy Practice Development Officer, One Voice Wales: Nodiadau Datblygu Arferion Diweddaraf / Latest Practice Development Notes.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 19/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/06/2025.
164	<i>Bwletin Cynnal y Cardi Mis Mehefin / June Cynnal y Cardi Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 19/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/06/2025.
165	<i>Un Llais Cymru E-Bwletin Rhifyn 5 / One Voice Wales E-Bulletin Number 5.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/06/2025.
166	<i>Preswylydd dienw / Unnamed resident – Pryderon ynghylch arwyddion palmant / Concerns regarding pavement signboards</i>	<i>Penderfynwyd cyfeirio'r mater hwn at CSC a Menter Aberteifi / It was resolved to refer this matter to CCC and Menter Aberteifi.</i>
167	Neil Hemington – <i>Prif Gynllunyydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio / Chief Planner, Planning Directorate: Cyhoeddi Bil Cynllunio (Cymru) Drafft / Publication of Draft Planning (Wlaes) Bill.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/06/2025.
168	<i>MAWWFire: Digwyddiad Golchi Ceir Elusennol Crymych Charity Car Wash.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/06/2025.
169	Bro Cardi360.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/06/2025.
170	<i>Grŵp o Fasnachwyr, Marchnad Neuadd y Dref, Aberteifi / Group of Traders, Guildhall Market, Cardigan: Pryderon ynghylch diffyg defnydd o'r gofod marchnad / Concerns regarding the lack of use of the market space.</i>	<i>Trafodwyd mewn Pwyllgor / Discussed in Committee.</i>
171	<i>Prosiect Argyfwng Cost Byw Un Llais Cymru – Gwybodaeth ac Adnoddau / One Voice Wales Cost of Living Crisis Project – Information and Resources.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 23/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/06/2025.
172	Mared Ress a Nona Davies – <i>Ysgrifenyddion Pwyllgor Rali Penparc / Penparc Rali Secretaries: Diolch am eich</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 24/06/2025.</i>

	<i>cyfraniad hael a'ch cefnogaeth / Thank you for your generous contribution and support.</i>	For your information. Forwarded to all councillors on 24/06/2025.
173	Lyn Cadwallader – <i>Prif Weithredwr, Un Llais Cymru / Chief Executive, One Voice Wales: Cyfansoddiad a Fframwaith Llywodraethu / Constitution and Governance Framework.</i>	<i>Nid oes gan y cynghorwyr unrhyw sylwadau i'w rhannu / Councillors do not have any comments to share.</i>
174	Wil Bowen – <i>Ysgrifennydd, Clwb Pêl Droed Aberteifi / Secretary, Cardigan Football Club: Contract torri porfa a phrydles / Mowing contract and lease.</i>	<i>Penderfynwyd trafod fformat ar gyfer contract gyda Phwyllgor y Clwb Pêl-droed / It was resolved to discuss a format for a contract with the Football Club Committee.</i>
175	<i>Cyfathrebu SCHTh Heddlu Dyfed Powys / OPCC Communication Dyfed Powys Police: Cwmpasu Darpariaeth Ieuenctid – Cyfrifiad yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol / Scoping Youth Provision – National Youth Agency Census.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 26/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 26/06/2025.
176	David Collins – <i>Swyddog Datblygu Arfer Llywodraethau a Pholisi / Un Llais Cymru / Governance and Policy Practice Development Officer, One Voice Wales: Nodiadau Datblygu Arferion Diweddaraf / Latest Practice Development Notes.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 26/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 26/06/2025.
177	<i>Gwobrau Cymru Daclus 2025 / Tidy Wales Awards 2025.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 27/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/06/2025.
178	<i>Bwletin Costau Byw Ceredigion: Mynediad at Fwyd Iach / Ceredigion Cost of Living Bulletin: Access to Healthy Food.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 27/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/06/2025.
179	Martin Ives – <i>Ysgrifennydd, Pwyllgor Ymddiriedolwyr y Cyfeillion, Amgueddfa Ceredigion / Secretary, The Friends Trustee Committee, Ceredigion Museum: Cais am aelod newydd o'r pwyllgor ymddiriedolwyr / Request for a new trustee committee member.</i>	Cytunodd y Cyng Mark Cole i ymuno â Phwyllgor Ymddiriedolwyr Amgueddfa Ceredigion / Cllr Mark Cole agreed to join the Trustee Committee for Ceredigion Museum.
180	Rose Barter – <i>Friends of Netpool Park: Gwahoddiad i ddigwyddiad Gardd Agored / Invitation to an Open Garden event.</i>	<i>Nodwyd, Diolch yn fawr / Noted, Thank you.</i>
181	J Parry – <i>Preswylydd / Resident of Netpool: Pryderon ynghylch parc Netpool / Concerns regarding Netpool park.</i>	<i>Penderfynodd y Cynghorwyr ofyn i CSC dorri'r porfa ar unwaith ac annog y preswylydd i roi gwybod am weithgareddau anghyfreithlon i'r Heddlu / Cllrs resolved to request that CCC cut the grass immediately and to encourage the resident to report illegal activities to the Police.</i>
182	<i>Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise Community Forest Garden: Haf / Summer.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 30/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/06/2025.
183	Charleen Agostini – <i>Preswylydd Maes Mwldan yn gofyn am bont a llwybr i'r CIIA / Maes Mwldan resident requesting a bridge and path to the CICC.</i>	<i>Penderfynodd y cynghorwyr ail edrych ar y cynlluniau ar gyfer Ardal Gwlyptir Mwldan i sefydlu a oedd pont yn bosibl / Councillors resolved to revisit the plans for the Mwldan Wetland Area to establish if a bridge was possible.</i>
184	Llinos Jones – <i>Hyfforddai Proffesiynol Cynllunio a Pheirianeg Trafnidiaeth / Professional Trainee in Transport Planning: Cymorth I ddeall teithio llesol yng Nghymru wledig / Assistance to understand active travel in rural Wales.</i>	<i>Penderfynodd y Cynghorwyr ymateb yn unigol i'r ohebiaeth hon / Councillors resolved to respond individually to this correspondence.</i>
185	Cardigan Pool Revival – <i>Cofnodion cyfarfod 25 Mehefin / Minutes of the meeting on 25 June.</i>	<i>Nodwyd, diolch yn fawr / Noted, thank you.</i>
186	Wynne Jones – <i>Preswlywydd / Resident: Ffioedd Parcio Tref Aberteifi / Cardigan Town Parking Charges.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 01/07/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/07/2025.

187	Julian Beynon-Lewis – <i>Ymateb i ohebiaeth ynghylch Marchnad Neuadd y Dref Aberteifi</i> / Response to correspondence regarding Cardigan Guildhall Market.	<i>Trafodwyd mewn Pwyllgor</i> / Discussed in Committee.
188	<i>Clwb Pel Rwyd Aberteifi</i> / Cardigan Netball Club: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial support.	<i>Gweler eitem 8. F)</i> / See item 8. f).
189	<i>Cymdeithas Ffrindiau Ysgol Gynradd Aberteifi</i> / Friends of Cardigan Junior School Association: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial support.	<i>Gweler eitem 8. F)</i> / See item 8. f).

d) Polion baneri.

Rhannodd y Cyng Nick Bolton gynlluniau ar gyfer lleoliad y polion baner a gwybodaeth ynghylch y broses sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn. Diolchodd y Cynghorwyr i'r Cynghorydd Bolton am ei waith a phenderfynwyd y dylai'r cais cynllunio fynd yn ei flaen.
Flagpoles.

Cllr Nick Bolton shared plans for the location of the flagpoles and information regarding the process involved with this project. Councillors thanked Cllr Bolton for his work and resolved for the planning application to proceed.

e) Cofnodion o'r Cyfarfod Costau Parcio Masnachwyr - cymeradwyo'r llythyr cefnogaeth.

Penderfynodd y cynghorwyr ychwanegu at y llythyr, ac unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, bydd copi o'r llythyr yn cael ei rannu â grŵp Masnachwyr Aberteifi a bydd cais yn cael ei wneud i hysbysu'r cyngor o unrhyw ddatblygiadau.

Minutes from the Traders Parking Cost Meeting – approve the letter of support.
Councillors resolved to make additions to the letter, once approved, a copy of the letter will be shared with the Cardigan Traders group and a request made that the council be informed of any developments.

f) Cyrtiau Tennis Aberteifi.

Penderfynodd y Cynghorwyr dderbyn y cytundeb a luniwyd rhwng Cyngor Tref Aberteifi a We Do Tennis. Bydd y cyrtiau'n agor i'w harchebu ar-lein ddydd Llun 14 Gorffennaf 2025.
Cardigan Tennis Courts.

The Councillors resolved to accept the agreement drawn up between Cardigan Town Council and We Do Tennis. The courts are to be opened for booking online on Monday 14 July 2025.

g) Adroddiadau ROSPA.

Brenin Siôr V – mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gwelliannau sydd angen eu gwneud yn y maes chwarae, ac mae'r cyngor eisoes yn ymwybodol ohonynt. Cynllun ar gyfer y gwaith angenrheidiol i'w gwblhau gan y Bachan Deche, Clerc, gyda mewnbwn gan yr Is-bwyllgor Chwaraeon a Hamdden.

Parc Sglefrio Aberteifi – mae copi o'r adroddiad wedi'i rannu â FOCS i'w sylw.

Penderfynwyd y dylai'r Clerc hysbysu ROSPA fod angen ychwanegu man chwarae Pentop at yr archwiliadau blyneddol.

ROSPA Reports.

King George V – the report highlights the improvements that need to be carried out in the play area which the council are already aware. A plan for necessary works to be completed by the Handyman, Clerk with input from the Sports and Recreation Sub-Committee.

Cardigan Skatepark – a copy of the report has been shared with FOCS for their attention.

It was resolved for the Clerk to notify ROSPA that the Pentop play area needs to be added to the annual inspections.

h) Noson dathlu gwobrau grantiau.

Penderfynwyd cynnal y digwyddiad ym mis Chwefror neu fis Mawrth yn flynyddol. Mae'r lleoliadau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys y Castell, Theatr Mwdan a'r Neuadd y Dref. Os

na fydd y derbynwyr llwyddiannus yn mynychu, ni fyddai'r cyngor yn ystyried unrhyw geisiadau grant yn y dyfodol. Byddai'r noson yn ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus i'r cyngor rannu gwybodaeth am y praesept a holiadur i'w gwblhau.

Grant awards celebration evening.

It was resolved to hold the event in February or March on an annual basis. Venues being considered include the Castle, Theatre Mwdan and the Guildhall. Failure to attend by successful recipients would mean that no future grant applications would be considered by the council. The evening would be a public consultation event for the council sharing information on the precept and a questionnaire for completion.

i) Ceisiadau am gymorth ariannol / Applications for financial aid.

Trafodwyd mewn Pwyllgor / Discussed in Committee.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer

5 Mehefin	Cyfarfod Masnachwyr Aberteifi - Ffioedd Maes Parcio
7 Mehefin	Rali Ceredigion CFFI
8 Mehefin	Datganiad Organ Jane Watts yn Eglwys y Santes Fair
19 Mehefin	Cyfarfod Zoom We Do Tennis a Lawnt Tennis Cymru ynghylch Cyrtiau Tennis Aberteifi
24 Mehefin	Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru, Cei Newydd
25 Mehefin	Cyfarfod Adfywio Pwll Nofio ar Zoom
26 Mehefin	Cyfarfod â thrigolion ym Mharc Netpool
28 Mehefin	Gwasanaeth Dydd y Lluedd Arfog Senotaff Aberteifi
28 Mehefin	Lansio Gŵyl Fawr Aberteifi yng Nghastell Aberteifi
29 Mehefin	Gwasanaeth Eglwys Gŵyl Fawr Eglwys y Santes Fair
30 Mehefin	Ffotograff Noddwyr Gŵyl Fawr yn y Siop Ddalen Drwy
1 Gorffennaf	Agoriad Swyddogol yr Eglwys Wyl Fawr
1 Gorffennaf	Sioe CICA Gŵyl Fawr

Mayor's Diary

5 June	Cardigan Traders Car Park Charges Meeting
7 June	YFC Rally Ceredigion
8 June	Jane Watts Organ recital in St Marys Church
19 June	We Do Tennis and Tennis Lawn Wales zoom meeting regarding the Cardigan Tennis Courts
24 June	One Voice Wales Area Meeting In New Quay
25 June	Swimming Pool Revival meeting
26 June	Meeting residents in Netpool Park
28 June	Armed Forces Day Service Cardigan Cenotaph
28 June	Cardigan Castle – Gwyl Fawr Aberteifi launch
29 June	Gwyl Fawr Church Service St Marys Church
30 June	Gwyl Fawr Sponsors Photograph at the Leaf Through Shop
1 July	Official Opening of the Gwyl Fawr Eisteddfod
1 July	Gwyl Fawr CICA Show

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- Ni fydd y llinellau gwyn newydd a'r arwyddion yr wyf wedi gofyn amdanynt, ger Home Bargains i dynnu sylw at y "Ildiwch Ffordd" yn cael eu cwblhau ar frys;
- Cefais help y Cyng David Maehrlein i chwynnu slabiau'r patio a thacluso porfa y Senotaff, i wella ei golwg ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog ar 28 Mehefin;
- Mynychais wasanaeth Diwrnod y Lluoedd Arfog ar 28 Mehefin, dan arweiniad Alan Kent ac aelodau o'r Lleng Brydeinig Frenhinol;
- Mae'r cloddiau sydd wedi gordyfu wedi cael eu hadrodd i Clic eto - mae angen eu torri'n ôl gan fod pobl yn ei chael hi'n anodd llywio'r palmentydd, yn enwedig mewn cadeiriau olwyn;
- Mynychais Ŵyl y Barcudiaid ym Mharc Fferm Arfordirol Ynys Aberteifi;
- Cysylltais â CSC a Barcud i ddarganfod pwy sy'n berchen ar rywfaint o'r tir yn Felinban er mwyn ein galluogi i wneud cais am grantiau i dyfu llysiau i drigolion;
- Mynychais gyfarfod masnachwyr Aberteifi ynghylch y cynnydd mewn Ffioedd Parcio;
- Mae Gerddi Victoria wedi cael eu torri o'r diwedd, sy'n ddymunol, ond mae'r planhigion yn dal i ymledu ar y palmant ar hyd y ffyrdd;
- Rwyf yn cynnig cefnogaeth i deulu sydd angen cael eu hailgartrefu yn Aberteifi o Barcllyn;
- Trefnais casglu matres a gafodd ei thipio'n anghyfreithlon yn Felinban, roedd y broblem yn achosi problemau rhwng cymdogion;
- Rwyf wrthi yn gwneud ymholiadau i ostwng cost casglu a gwaredu eitemau swmpus er mwyn atal y cynnydd mewn tipio anghyfreithlon yn ystod yr argyfwng costau byw;
- Rwyf wedi gofyn am restr fanwl o ardaloedd porfa Cyngor y Dref a CSC i sefydlu pwy sy'n gyfrifol am dorri pa rannau;

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- The new white lines and signs, that I have requested, by Home Bargains highlighting the "Give Way" will not be completed with any urgency;
- Cllr David Maehrlein assisted me to weed the patio slabs and tidy up the cenotaph grass, to make it look presentable for Armed Forces Day on 28 June;
- Attended the Armed Forces Day service on 28 June, led by Alan Kent and members of the Royal British Legion;
- The overgrown hedges have again been reported to Clic – they need to be trimmed back as people are finding it hard to navigate the pavements, especially in wheelchairs;
- Attended the Kite Festival at the Cardigan Island Coastal Farm Park;
- Contacted CCC and Barcud to find out who owns some of the land in Felinban to enable us to apply for grants to grow vegetables for residents;
- Attended the Cardigan traders meeting concerning the increase in Parking Fees;
- Victoria Gardens have at last been cut, which is pleasing, but the hedges are still encroaching onto the pavement along the roads;
- Offering support to a family desperately needing to be rehoused in Cardigan from Parcllyn;

- Arranged for a mattress which was fly tipped in Felinban to be collected, the issue was causing friction between neighbours;
- Making enquiries for the cost of collecting and disposing of bulky items to be lowered to prevent the increase in fly tipping during the cost-of-living crisis;
- Requested a detailed list of all Town Council and CCC grass areas to establish who is responsible for mowing which parts;

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Mynychais gyfarfod Masnachwyr Aberteifi i drafod y prisiau parcio uchel a gyflwynwyd ym meysydd parcio Ceredigion;
- Ymunais â Chadeirydd newydd CSC, Ann Bowen Morgan, i fynychu dathliad pen-blwydd yn 101 oed yn Yr Hafod;
- Anfonais ymholiad at Clic am y paent ar y gyffordd ger Theatr Mwldan fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf gyda'r Cyng John Adams-Lewis;
- Eisteddais ar y pwyllgor cyfweld ar gyfer swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, sy'n cynnwys cyfarfod pwyllgor llunio rhestr fer, pwyllgor cyfweld, ac yna mynd i gyfarfod llawn y cyngor ar gyfer pleidlais derfynol. Llwyddodd Greg Jones yn ei gais am y swydd hon;
- O ran yr ardal eistedd sydd wedi'i difrodi ym Mhenbont, mae'r cyngor wedi hysbysu eu bod yn aros am ddyfynbris gan y contractwyr;
- Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cymunedau Iachach ar 10 Mehefin, cawsom ddiweddariad ar gartrefi gofal yng Ngheredigion a oedd yn cynnwys Yr Hafod. Maent wedi derbyn uwchraddiad trosi sy'n gyfeillgar i ddementia yn y cartref;
- Mae arysgrif Ceir Tywysog Siarl wedi'i hail-baentio o'r diwedd ac mae'n edrych yn anhygoel, diolch i CSC;
- Gan weithio'n agos gyda CSC, fe wnaethom lwyddo i ailgartrefu tenant mewn llety Gwely a Brecwast tra bod gwasanaethau plymio a thrydanwr brys yn cael eu ceisio i atgyweirio a diogelu difrod dwr yn eu heiddo;
- Rwyf wedi ymuno â Chronfa Tref Aberteifi CAVO, sy'n fy ngalluogi i drafod ceisiadau am grantiau ar gyfer prosiectau yn y dref;
- Ymunais â'r Cyngorydd Olwen Davies a'r Clerc, Eleri Maskell i wneud trefniadau i swyddogion "We Do Tennis" reoli ein cyrtiau tenis sydd newydd eu hadnewyddu. Roedd cynrychiolwyr o Gymdeithas Tennis Lawnt Cymru hefyd yn bresennol i oruchwyllo'r trefniadau;
- Rwyf wedi gofyn i'r tîm Golygfa Stryd Ianhau'r gwydr sydd wedi torri yn Sgwâr Finch;
- Adroddodd Swyddog CSC a archwiliodd y llwybr o'r Drawbridge i'r Capel Gorffwys yr wythnos diwethaf fod crac wedi'i ganfod yn y wal gynnal lle mae'r llwybr yn gul yn naturiol. O ganlyniad, bydd yr hysbysiad cau 21 diwrnod yn cael ei uwchraddio i gau 6 mis i ganiatáu i ymchwiliad pellach gael ei gynnal;

CLlr Elaine Evans Teifi Ward

- Attended the Cardigan Traders meeting to discuss the high parking prices introduced in Ceredigion carparks;
- Joined CCC's new Chairperson, Ann Bowen Morgan, to attend a 101st birthday celebration at Yr Hafod;
- Sent a query to Clic about the paint on the junction near Theatre Mwldan as discussed in the last meeting with CLlr John Adams-Lewis;

- I was on the interviewing committee for the post of Corporate Lead Officer Porth Cymorth Cynnar, which involves a shortlisting committee meeting, an interviewing committee, then goes to full council meeting for final vote. Greg Jones was successful in his application for this post;
- Regarding the damaged slate seating area at Penbont, the council have advised they are waiting for a quote from the contractors;
- During the Healthier Communities Committee meeting on 10 June we received an update on care homes in Ceredigion which included Yr Hafod. They have received a dementia friendly conversion upgrade in the home;
- Prince Charles Quay inscription has finally been repainted and looks amazing, thank you to CCC;
- Working closely with CCC, we successfully rehoused a tenant in a Bed and Breakfast whilst emergency plumbing and electrician services were sought to repair and make safe a leak in their property;
- I have joined the CAVO Cardigan Town Fund, which enables me to discuss grant applications for projects within the town;
- I joined Cllr Olwen Davies and the Clerk, Eleri Maskell to make arrangements for “We Do Tennis” officials to manage our newly refurbished tennis courts. Representatives from the Welsh Lawn Tennis Association also attended to oversee the arrangements;
- I have asked the Street Scene team to clean the broken glass in Finch Square;
- The CCC Officer who inspected the path from Drawbridge to the Chapel of Rest last week reported that a crack has been identified in the retaining wall where the path is naturally narrow. As a consequence, the 21-day closure notice will be upgraded to a 6-month closure to allow further investigation to be carried out;

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson’s Report.

i) Cae Chwarae Brenin Siôr Sed

Cyfeirir at adroddiad arolygu diweddar ROSPA wrth greu cynllun uwchraddio ar gyfer y safle hwn.

King George 5th Children’s Play Area

The recent ROSPA inspection report will be referred to when creating an upgrade plan for this site.

ii) Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.

Dim yw adrodd / Nothing to report.

iii) Maes Sgrialu /Skateboard Park

Dim yw adrodd / Nothing to report.

iv) Cae Chwarae Pentop / Pentop Play Area

Dim yw adrodd / Nothing to report.

v) Cyffredinol / General

Mae'r holl arddangosfeydd blodau yng Nghanol y Dref bellach wedi'u cwblhau / All of the flower displays in the Town Centre are now complete.

d) Amserlen waith mân.

Adolygydd a chytunwyd ar yr amserlen gan y cynghorwyr.

Minor works schedule.

The schedule was reviewed and agreed by the councillors.

10. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei chadwyn.

Cadarnhaodd y Maer gyda'r Clerc fod y ddwy gadwyn mewn gwarchodaeth ddiogel cyn y cyfarfod.

Quarterly statement by the Mayor regarding safeguarding chain of office.

The Mayor confirmed with the Clerk that both chains were in safe custody prior to the meeting.

11. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Dim eitemau wedi'u nodi.

Items for the next Agenda.

No items noted.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 19.50yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 19.50pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date